# Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016

**2016 dccc 6**

**RHAN 4**

PWERAU YMCHWILIO ACC

**PENNOD 6**

TROSEDDAU YN YMWNEUD Â HYSBYSIADAU GWYBODAETH

### 114 Trosedd o gelu etc. ddogfennau yn dilyn hysbysiad gwybodaeth

(1) Mae person yn cyflawni trosedd—

(a) os yw ACC yn dyroddi hysbysiad gwybodaeth i'r person—

(i) sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r person gyflwyno dogfen, a

(ii) sydd wedi ei gymeradwyo gan y tribiwnlys, a

(b) os yw'r person yn celu, yn difa neu fel arall yn cael gwared (neu'n trefnu i gelu, i ddifa neu i gael gwared) â'r ddogfen honno.

(2) Gall person gyflawni trosedd o dan is-adran (1) er gwaethaf y ffaith bod y person wedi apelio yn erbyn yr hysbysiad gwybodaeth neu yn erbyn gofyniad ynddo.

(3) Nid yw person yn cyflawni trosedd o dan is-adran (1) os yw'r person yn gweithredu ar ôl i'r ddogfen wreiddiol gael ei chyflwyno yn unol â'r hysbysiad gwybodaeth, oni bai bod ACC wedi hysbysu'r person bod rhaid i'r ddogfen barhau i fod ar gael i'w harchwilio (ac nad yw wedi tynnu'r hysbysiad yn ôl).

(4) Pan fo copi o ddogfen wedi ei gyflwyno yn unol ag adran 96(1), nid yw person yn cyflawni trosedd o dan is-adran (1) os yw'r person yn gweithredu ar ôl diwedd y cyfnod o 6 mis sy'n dechrau â'r diwrnod y cyflwynwyd y copi oni bai bod ACC, cyn i'r cyfnod hwnnw ddod i ben, wedi gofyn am y ddogfen wreiddiol o dan adran 96(3).

(5) Mae'n amddiffyniad i berson a gyhuddir o drosedd o dan is-adran (1) ddangos bod gan y person esgus rhesymol am gelu, am ddifa neu fel arall am gael gwared (neu am drefnu i gelu, i ddifa neu i gael gwared) â'r ddogfen.

(6) Mae person sy'n cyflawni trosedd o dan is-adran (1) yn agored—

(a) ar gollfarn ddiannod, i ddirwy;

(b) ar gollfarn ar dditiad, i garchar am gyfnod heb fod yn hwy na 2 flynedd neu i ddirwy (neu'r ddau).

## 115 Trosedd o gelu etc. ddogfennau yn dilyn hysbysiad

(1) Mae person yn cyflawni trosedd os yw'r person yn celu, yn difa neu fel arall yn cael gwared (neu'n trefnu i gelu, i ddifa neu i gael gwared) â dogfen ar ôl i ACC ddweud wrth y person—

(a) y bydd dogfen, neu ei bod yn debygol o fod, yn destun hysbysiad gwybodaeth wedi ei gyfeirio at y person hwnnw (gweler adran 88(3)(b)), a

(b) bod ACC yn bwriadu ceisio cymeradwyaeth y tribiwnlys i ddyroddi'r hysbysiad gwybodaeth (gweler adran 87(2)(b)) neu ei bod yn ofynnol iddo geisio cymeradwyaeth o'r fath (gweler adrannau 86, 89(1)(d) a 92(1)).

(2) Nid yw person yn cyflawni trosedd o dan is-adran (1) os yw'r person yn celu, yn difa neu fel arall yn cael gwared â'r ddogfen—

(a) ar ôl diwedd y cyfnod o 6 mis sy'n dechrau â'r diwrnod y dywedodd ACC wrth y person (neu y dywedodd wrth y person ddiwethaf), neu

(b) wedi i hysbysiad gwybodaeth gael ei ddyroddi sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r person gyflwyno'r ddogfen.

(3) Mae'n amddiffyniad i berson a gyhuddir o drosedd o dan is-adran (1) ddangos bod gan y person esgus rhesymol am gelu, am ddifa neu fel arall am gael gwared (neu am drefnu i gelu, i ddifa neu i gael gwared) â'r ddogfen.

(4) Mae person sy'n cyflawni trosedd o dan is-adran (1) yn agored—

(a) ar gollfarn ddiannod, i ddirwy;

(b) ar gollfarn ar dditiad, i garchar am gyfnod heb fod yn hwy na 2 flynedd neu i ddirwy (neu'r ddau).